#MaterionTaiCymru

# Materion Tai:

# Diogelu dyfodol gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai yng Nghymru

Cartrefi Cymunedol Cymru

cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Rough Sleepers Cymru
ending the need to sleep rough in Wales
rhoi terfyn ar gysgu allan yng Nghymru

Shelter Cymru

tai pawb
promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

END YOUTH HOMELESSNESS CYMRU
FOUNDING MEMBERS

erosh

CIH Chartered Institute of Housing Cymru

# Cyflwyniad

**Dros y misoedd nesaf, bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad hollbwysig ynghylch dyfodol cyllido gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai yng Nghymru.**

Rydym ni'n gasgliad o sefydliadau cenedlaethol sydd wedi ymrwymo i roi terfyn ar ddigartrefedd a sicrhau bod pobl yn gallu byw'n ddiogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi bod yn trafod cynlluniau Llywodraeth Cymru, ac yn ystyried y cyfleoedd a'r bygythiadau sydd i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynaliadwy, a'r bygythiadau i fywydau'r bobl rydym yn eu cynrychioli.

Rydym yn cydnabod y pwysau sydd ar Lywodraeth Cymru a'r heriau mae'r Gweinidogion yn eu hwynebu. Yng ngoleuni hyn, nid ydym yn unig yn amddiffyn y status quo. Rydym wedi herio'n haelodau a herio'n gilydd i ddatblygu ateb adeiladol sy'n helpu i gwrdd â nodau Gweinidogion – ond a fydd hefyd yn diogelu dyfodol gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai yng Nghymru. Credwn hefyd y gall ein cynnig hwyluso dull mwy strategol o weithio i roi terfyn ar ddigartrefedd a chefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol a llawn.

Rydym yn mawr obeithio y gall Aelodau Cynulliad o bob plaid gefnogi'r cynnig hwn.

**Katie Dalton**
Cyfarwyddwr
Cymorth Cymru

**Stuart Ropke**
Prif Weithredwr
Cartrefi Cymunedol Cymru

**Eleri Butler**
Prif Weithredwr
Cymorth i Ferched Cymru

**John Puzey**
Cyfarwyddwr
Shelter Cymru

**Antony Kendall**
Cadeirydd
Rough Sleepers Cymru

**Alicja Zalesinska**
Cyfarwyddwr
Tai Pawb

**Richard Sheahan**
Cadeirydd
EROSH De Cymru

**Matt Dicks**
Cyfarwyddwr
CIH Cymru

**Frances Beecher**
Cadeirydd
End Youth Homelessness Cymru

**The Most Reverend John D E Davies Archbishop of Wales**
Cadeirydd
Housing Justice Cymru

# Cyd-destun

**Er bod Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi gwella'r ffocws ar atal digartrefedd yng Nghymru, mae heriau megis cyfyngiadau ar wario cyhoeddus, a diwygio lles, wedi cyfrannu at gynnydd mewn digartrefedd yma ac ar draws y DU.**

- Dangosodd ystadegau Llywodraeth Cymru **gynnydd o 58%** yn y nifer a aseswyd gan awdurdodau lleol fel pobl ddigartref rhwng 2015/16 a 2016/17.
- Dangosodd y cyfrif a wnaed yn 2017 gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol **gynnydd o 33%** yn y nifer o bobl oedd yn cysgu ar y stryd ar un noson o'i gymharu â'r ffigur yn 2016, a **chynnydd o 10%** yn y nifer o bobl oedd yn cysgu ar y stryd dros gyfnod o ddwy wythnos.

The Housing (Wales) Act 2014 has prevented homelessness for thousands of people since Byth ers i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ddod i rym, mae hi wedi atal miloedd o bobl rhag bod yn ddigartref, ond y mae o hyd lawer iawn o bobl yng Nghymru sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu o gael profiad o ddigartrefedd. Mae materion strwythurol – megis prinder tai fforddiadwy, diwygio lles, a diffyg swyddi sefydlog sy'n talu'n dda – i gyd yn cyfrannu at hyn, yn ogystal ag argyfyngau unigol megis colli nawdd cymdeithasol neu swydd, problemau iechyd meddwl neu iechyd corfforol, cam-drin domestig, a pherthynas yn chwalu. Mae profiadau andwyol mewn plentyndod yn hynod gyffredin ymhlith pobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd, a gall hyn gael effaith negyddol ar y modd mae pobl yn rhyngweithio gyda'r systemau tai, iechyd a lles.

Fodd bynnag, gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai yn aml yw'r rhwyd ddiogelwch sy'n helpu pobl i godi'n ôl ar eu traed a'u cefnogi i fyw bywydau iach, annibynnol yn eu cymunedau. Gall yr ymyriadau hyn hefyd helpu i dorri'r cylch dieflig o brofiadau andwyol mewn plentyndod a sicrhau gwell dyfodol i bobl yng Nghymru. Mae'n gwbl hanfodol nad ydym yn rhoi dyfodol y gwasanaethau hyn mewn perygl ar adeg pan ddylem fod yn ffocysu ar ddefnyddio'r dulliau sydd gennym yng Nghymru i atal a lliniaru digartrefedd.

## Sut caiff gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai eu cyllido ar hyn o bryd?

**Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.** Clustnodir cyllideb i'r pwrpas, a'r swm ar hyn o bryd yw £124 miliwn. Nod y Rhaglen Cefnogi Pobl yw lliniaru neu atal digartrefedd, a helpu pobl fregus i fyw mor annibynnol ag y bo modd. Caiff gwasanaethau eu comisiynu gan awdurdodau lleol a'u cyflenwi gan ystod o elusennau a chymdeithasau tai ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys hosteli i'r digartref, llochesau i rai sy'n dioddef cam-drin domestig, mathau eraill o gynlluniau llety â chymorth, a chefnogaeth tenantiaeth a gyflenwir i bobl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r Rhaglen yn cefnogi tua 60,000 o bobl bob blwyddyn, yn cynnwys pobl ifanc fregus a rhai sy'n gadael gofal, pobl hŷn, pobl sy'n cael profiad o ddigartrefedd neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, pobl sy'n dianc rhag trais yn erbyn menywod, achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ag anableddau dysgu, a phobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

**Mae'r Grant Atal Digartrefedd yn darparu cyllid i awdurdodau lleol i'w galluogi i gyflenwi gwasanaethau i atal a lliniaru digartrefedd** yn unol â'u dyletswyddau statudol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r swm o £6miliwn wedi ei gynnwys yn y Grant Cymorth Refeniw am 2018/19 i gyflenwi'r nodau hyn, gan adeiladu ar yr ariannu grant pontio a ddyfernir am dair blynedd yn ystod cyfnod gweithredu'r Ddeddf. Cynhwysir swm ychwanegol o £2.8miliwn o ariannu Grant Atal Digartrefedd yn y cynlluniau Ardaloedd Braenaru Cyllido Hyblyg yn ystod 2018/19.

## Pa newidiadau sydd dan ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru?

**Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae grant Rhaglen Cefnogi Pobl wedi ei glustnodi, sy'n golygu bod awdurdodau lleol wedi gorfod gwario eu dyraniad hwy ar wasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai, yn unol â thelerau ac amodau'r grant.**

Ar 1 Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru drefniant a fyddai'n diogelu cyllid Cefnogi Pobl ar lefel o £124miliwn yn 2018/19 a 2019/20. Fodd bynnag, dair wythnos yn ddiweddarach, datgelodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ystyried gwneud newidiadau sylweddol i'r system gyllido.

**Hyblygrwydd cyllido 2018/19:** Ar 24 Hydref 2017, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at brif weithredwyr yr awdurdodau lleol i amlinellu ei chynlluniau i greu saith o awdurdodau lleol sy'n 'Ardaloedd Braenaru Llawn'. Nododd y llythyr y byddai'r 'Ardaloedd Braenaru' hyn yn cael 100% o hyblygrwydd gwario ar draws pum rhaglen grant wahanol yn ystod 2018/19: Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gwaddol Cymunedau'n Gyntaf a Cymunedau am Waith a Mwy. Ers hynny, cynyddwyd hyn i gynnwys y deg grant a restrir yn y diagram isod. Cafodd y 15 awdurdod lleol arall 15% o hyblygrwydd gwario ar draws y pum grant gwreiddiol.

**Grant Arfaethedig YGACh 2019/20:** Ar 24 Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd ei chyllideb ddrafft fanwl am y ddwy flynedd nesaf. Roedd llinell y gyllideb ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl yn 2019/20 wedi ei ostwng i £0, a'r arian wedi ei symud i linell cyllideb newydd dan y teitl Ymyrraeth Gynnar: Atal a Chefnogi (YGACh/EIPS). Dywedwyd wrthym fod Gweinidogion yn ystyried cyfuno'r grantiau isod i greu un grant unigol ar gyfer 2019/20. Byddai hyn yn dileu'r dull o glustnodi sy'n bodoli eisoes yng nghyd-destun cyllido Cefnogi Pobl.

### Dyma'r grant arfaethedig: Grant Ymyrraeth Gynnar: Atal a Chefnogi (YGACh):

- Gofal Plant a Chwarae →
- Gwaddol Cymunedau'n Gyntaf →
- Cymunedau am Waith a Mwy →
- Dechrau'n Deg →
- Teuluoedd yn Gyntaf →
- Grant Atal Digartrefedd →
- Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc sydd mewn Perygl o Droseddu →
- Rhentu Doeth Cymru →
- Cronfa Dydd Gŵyl Dewi →
- Rhaglen Cefnogi Pobl →

**Grant Ymyrraeth Gynnar: Atal a Chefnogi**

# Beth yw'r pryderon ynghylch y grant arfaethedig, Grant Ymyrraeth Gynnar: Atal a Chefnogi?

**Perygl o wanhau'r ffocws ar ddigartrefedd:** Mae'r gwasanaethau a gynhwysir yn y grant YGACh arfaethedig yn amrywio'n fawr, gyda gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai yn cael eu rhestru ochr yn ochr ag ystod o wasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â thai, megis rhai sy'n ffocysu ar y blynyddoedd cynnar a theuluoedd, yn cynnwys darparu ymwelwyr iechyd a gofal plant. Mae'r fframwaith cyfarwyddyd a deilliannau a ddaw o ganlyniad i hyn yn debygol o fod yn llawer gwannach er mwyn cynnwys yr ystod eang hon o wasanaethau – ac o ganlyniad bydd y peryglon yn ddiystyr. Gyda'r cynnydd diweddar mewn digartrefedd a chysgu ar y stryd, mae'n hollbwysig ein bod yn cadw ffocws clir ar fynd i'r afael â digartrefedd a darparu tai ar gyfer pobl fregus sydd ag angen cymorth. Mae angen i'r arbenigedd yn y sector cymorth i ddigartrefedd a thai ganolbwyntio ar y nod hwn, nid colli ffocws oherwydd ansicrwydd.

> **"Rwyf wedi cael profiad o enghreifftiau di-ri o wrthwynebiad cymunedol i gynlluniau llety â chymorth, yn cynnwys pobl yn gorymdeithio drwy'r strydoedd ac yn protestio mewn cyfarfodydd cynllunio. Mae angen i wleidyddion ddeall pwysigrwydd clustnodi arian i ddiogelu'r gwasanaethau hyn."**
>
> Cymdeithas Tai a darparwr cymorth

**Gwrthwynebiad i'r gwasanaethau Cefnogi Pobl yng Nghymru:** Yn anffodus, mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr cymorth, landlordiaid a chomisynwyr wedi cael profiad o wrthwynebiad cymunedol i brosiectau Cefnogi Pobl. Mewn rhai achosion, mae niferoedd mawr o bobl leol wedi cwyno am, protestio yn erbyn, neu wrthwynebu caniatâd cynllunio ar gyfer cynlluniau llety â chymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ifanc, pobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl sy'n dianc rhag cam-drin domestig, a grwpiau eraill o bobl sy'n fregus neu ar gyrion cymdeithas.

**Perygl i'r cyllid gael ei wario mewn mannau eraill:** Ar hyn o bryd, mae'r ffaith fod cyllid Cefnogi Pobl yn cael ei glustnodi yn gwarantu ei fod yn cael ei wario ar wasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai. Byddai ei gyfuno â'r grant arfaethedig YGACh yn diddymu'r nodwedd hon, ac yn golygu y gellid gwario'r arian ar wasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o fewn y grant hwn. Byddai'n gosod y cynlluniau hyn – sy'n aml yn amhoblogaidd – mewn cystadleuaeth uniongyrchol am gyllid gyda gwasanaethau mwy poblogaidd, megis y blynyddoedd cynnar, ymwelwyr iechyd a gofal plant. Rydym yn pryderu y bydd pwysau ar y cyllidebau a gwrthwynebiad cymunedol i gynlluniau Cefnogi Pobl yn arwain at ostyngiad yn yr arian sy'n cael ei wario ar y gwasanaethau hyn yn y tymor-canolig i'r hir-dymor.

> **"Mae angen i ni gael sicrwydd mwy pendant ynghylch dyfodol cyllido llety â chymorth – fel arall, ni fydd ein benthycwyr yn buddsoddi, ac ni fydd modd i ni ddarparu'r stoc o dai."**
>
> Cymdeithas Tai

**Llai o sicrwydd i landlordiaid a benthycwyr:** Os diddymir yr arfer o glustnodi cyllid Cefnogi Pobl, yna ni fydd gan landlordiaid a'u benthycwyr unrhyw hyder na sicrwydd y bydd cyllid yn parhau i fod ar gael ar gyfer y pwrpas hwn. O ganlyniad, gallent ddewis naill ai i ostwng neu ddiweddu eu buddsoddiad mewn cynlluniau llety â chymorth. Gallai gostyngiad mewn adeiladau sydd ar gael ar gyfer llety â chymorth arwain at sefyllfa lle nad oes gan bobl fregus unman i fyw, gan achosi i bobl fod yn ddigartref, neu barhau i fod felly.

**Partneriaethau sy'n bodoli eisoes:** Un o'r dadleuon o blaid y grant YGACh yw fod angen i wahanol gynlluniau grant weithio'n well gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae llawer o gomisiynwyr, landlordiaid a darparwyr Cefnogi Pobl eisoes yn cydweithio'n dda gyda chomisiynwyr a darparwyr grantiau a ffrydiau cyllido eraill. Mae llawer o gynlluniau Cefnogi Pobl wedi denu cyllid o raglenni sydd o fewn yr YGACh arfaethedig, gan ddangos nad oes angen cyfuno'r grantiau i gyflawni'r nod hwn. Pwynt pwysig yw fod rhai cynlluniau hefyd wedi denu cyllid gan rai y tu allan i'r YGACh arfaethedig (e.e. iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu) a gallai hynny fod mewn perygl os oes llai o sicrwydd ynghylch dyfodol cyllido Cefnogi Pobl.

**Tystiolaeth o Loegr:** Tystiolaeth o Loegr: Yn Lloegr, mae diddymu'r arfer o glustnodi cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl wedi cael effaith ddinistriol ar lawer o wasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai. Mewn adroddiad a baratowyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2014, tynnwyd sylw at ostyngiadau cyfartalog mewn gwariant ar wasanaethau cymorth ym maes tai yn Lloegr o 45% rhwng 2010/11 a 2014/15. Mae sawl ffynhonnell hefyd wedi adrodd am doriadau o hyd at 80% mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol. Nododd yr elusen Homeless Link doriadau penodol yn achos pobl sy'n cysgu ar y stryd, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl sy'n gadael carchar, a phobl anabl.

Rhwng 2010 a 2014, collodd Lloegr 17% o'i llochesau arbenigol, a gwrthodwyd traean o'r holl atgyfeiriadau i lochesau, fel arfer oherwydd diffyg lle. Roedd adroddiadau ym mis Tachwedd 2017 yn awgrymu bod gwariant cynghorau ar lochesau trais domestig ar draws 33 o awdurdodau lleol mewn un rhan o Loegr wedi cwympo o hyd at 75% er 2010.

Er bod yr amgylchiadau'n wahanol yn Lloegr, mae'r ystadegau hyn yn tanlinellu'r perygl gwirioneddol o ddiddymu'r arfer o glustnodi cyllid Cefnogi Pobl. Mae nifer o bobl sy'n gweithio mewn sefydliadau ym maes digartrefedd a thai yn Lloegr wedi mynegi eu sioc a'u syndod bod Llywodraeth Cymru yn ystyried diddymu'r arfer o glustnodi'r arian yng Nghymru, ac maent wedi cynghori'n gryf yn ei erbyn.

**"Mae nifer o benderfyniadau polisi wedi arwain at gynnydd mewn digartrefedd yn Lloegr er 2010, ond yn fy marn i yr hyn a effeithiodd fwyaf ar y niferoedd yn cysgu ar y stryd oedd dileu'r arfer o glustnodi cyllid Cefnogi Pobl. Mae'n benbleth i mi pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi dysgu gwersi o hynny."**

Aelod o staff elusen i'r digartref, Lloegr

## Ystyriaeth ychwanegol: Datganoli costau tai mewn llety tymor-byr â chymorth


### Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i ddatganoli'r cyllid ar gyfer costau tai mewn llety tymor-byr â chymorth (a delir ar hyn o bryd drwy'r budd-dâl tai) i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2020.

Mae hyn yn dilyn dwy flynedd o newidiadau polisi gan Lywodraeth y DU, sydd wedi peri i landlordiaid a benthycwyr deimlo'n nerfus iawn ynghylch buddsoddi yn y cynlluniau hyn yn y dyfodol. Mae'r cynllun i symud y cyllid hwn allan o'r system nawdd cymdeithasol yn creu teimlad o ansicrwydd, ac mae'r sector yn chwilio am sicrwydd pendant y bydd cyllid ar gyfer llety â chymorth yn cael ei glustnodi. Mae'r cyd-destun hwn yn golygu bod diddymu'r arfer o glustnodi cyllid Cefnogi Pobl yn cario hyd yn oed mwy o risg i ddyfodol y cynlluniau hyn.

Er mwyn bod yn hyfyw, mae llety â chymorth yn dibynnu ar gostau tai a chostau cymorth fel ei gilydd. Gallai'r ansicrwydd o gwmpas y ddwy ffrwd ariannu hyn (yn enwedig i landlordiaid cymdeithasol a'u benthycwyr) atal datblygu ac ailddatblygu llety â chymorth ar gyfer pobl fregus yng Nghymru. Mae'n hollbwysig fod cyllid ar gyfer costau tai a chostau cymorth, fel ei gilydd, yn cael eu clustnodi er mwyn rhoi hyder i landlordiaid a benthycwyr ynghylch buddsoddi yn y dyfodol.

**"Mae datganoli costau tai mewn tai â chymorth dros y tymor byr yn newid y sefyllfa'n llwyr. Mae angen i ni gael mwy o sicrwydd ynghylch dyfodol cyllido costau tai a chostau Cefnogi Pobl, neu efallai y byddwn yn cael ein gorfodi i gerdded i ffwrdd"**

Cymdeithas Tai



# Ein cynnig ni: Grant Cymorth ym meysydd Digartrefedd a Thai

**Un ateb a drafodwyd yn eang yw rhannu'r grant YGACh arfaethedig yn ddau grant ar wahân, gydag un ohonynt yn ffocysu ar ddigartrefedd a thai.**

Byddai hyn yn hwyluso creu grant newydd, Grant Cymorth ym meysydd Digartrefedd a Thai, a fyddai'n cynnwys:

- Y Rhaglen Cefnogi Pobl
- Arian ar gyfer llety tymor byr â chymorth - y cyllid a gaiff ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru yn 2020 ar gyfer y costau tai mewn llety tymor-byr â chymorth
- Y Grant Atal Digartrefedd - yr elfen sy'n cael ei dyrannu i awdurdodau lleol (nid y Grant Atal Digartrefedd sy'n cyllido gwasanaethau yn y trydydd sector, y dylai Llywodraeth Cymru barhau i'w ddyfarnu ar wahân)
- Gorfodi Rhentu Doeth Cymru

> "Nid yw'n gwneud synnwyr i gyfuno cyllid digartrefedd a Chefnogi Pobl gyda grantiau nad ydynt yn gysylltiedig â thai. Mae'r ateb amgen hwn yn cael cefnogaeth gan lawer o bobl sy'n gweithio mewn timau awdurdodau lleol ym meysydd digartrefedd a Chefnogi Pobl."
>
> Aelod o staff awdurdod lleol

## Ein cynnig ni am Grant Cymorth ym meysydd Digartrefedd a Thai:

| | | |
|---|---|---|
| Rhaglen Cefnogi Pobl | → | Grant Cymorth ym meysydd Digartrefedd a Thai |
| Cyllid ar gyfer llety tymor-byr â chymorth | → | |
| Grant Atal Digartrefedd | → | |
| Gorfodi Rhentu Doeth Cymru | → | |

| | | |
|---|---|---|
| Gofal Plant a Chwarae | → | Grant Ymyrraeth Gynnar: Atal a Chefnogi |
| Gwaddol Cymunedau'n Gyntaf | → | |
| Cymunedau am Waith a Mwy | → | |
| Dechrau'n Deg | → | |
| Teuluoedd yn Gyntaf | → | |
| Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc sydd Mewn Perygl o Droseddu | → | |
| Cronfa Dydd Gŵyl Dewi | → | |

## Beth yw manteision y dull hwn o weithio?

**Mae'n cael cefnogaeth gref ar draws y sector cyfan:** Cefnogir yr ateb amgen hwn yn gryf iawn gan bobl sy'n gweithio i ddarparwyr cymorth yn y trydydd sector, cymdeithasau tai, tai awdurdodau lleol, a thimau digartrefedd a Chefnogi Pobl.

**Mae'n amddiffyn dyfodol gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai:** Rydym ni o'r farn y byddai'r ateb amgen hwn yn cynnig yr amddiffyniad angenrheidiol i wasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai yng Nghymru. Byddai'n osgoi gosod gwasanaethau tai ar gyfer grwpiau sydd weithiau'n 'amhoblogaidd' mewn cystadleuaeth uniongyrchol â gwasanaethau sy'n fwy deniadol yn wleidyddol, megis y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

**Mae'n helpu i wireddu nodau Llywodraeth Cymru:** Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r broses o alinio grantiau trwy dynnu at ei gilydd bedwar grant gwahanol mewn perthynas â thai. Yn gyffredinol, mae'n helpu i ostwng yn sylweddol y nifer o ffrydiau cyllido a reolir gan Lywodraeth Cymru trwy gyfuno 11 o grantiau i greu dim ond dau grant.

**Byddai'n galluogi dull mwy strategol ac arloesol o ddarparu gwasanaeth:** Byddai tynnu ynghyd y cyllid ar gyfer llety â chymorth, cymorth tenantiaeth a gwasanaethau digartrefedd i greu un grant ac un strwythur llywodraethu yn hwyluso dull mwy cydgysylltiedig, strategol ac arloesol o ddarparu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru. Ynghyd â'r angen i archwilio dulliau newydd a dulliau sy'n datblygu, megis Tai yn Gyntaf, gallai hyn ein galluogi ni i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, tra ar yr un pryd yn cadw ffocws clir ar ddigartrefedd a thai.

**Mae'n darparu dull o ddelio â datganoli costau tai mewn llety tymor-byr â chymorth:** Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddatganoli ym mis Ebrill 2020, ac mae angen i ni osod model dosbarthu cyllid yn ei le cyn gynted ag y bo modd. Mae landlordiaid, comisiynwyr a darparwyr oll wedi pwyso ar Lywodraeth Cymru i wneud defnydd o strwythurau sy'n bodoli eisoes pan fo modd; maent hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd cadw'r cyllid ar gyfer costau tai a chostau cymorth gyda'i gilydd o fewn cronfa a glustnodir i'r pwrpas.

> **"Roedd yna adeg pan fydden ni wedi ymgyrchu am ddim byd mwy na'r status quo - h.y. Cefnogi Pobl wedi'i glustnodi ar ei ben ei hun. Ond mae'r sector yn deall bod Llywodraeth Cymru'n awyddus i ostwng y nifer o grantiau mae'n eu rheoli - oherwydd hynny rydym wedi ceisio cynnig dull gwahanol o wneud hyn, ond heb beryglu gwasanaethau ar gyfer pobl fregus."**
>
> Darparwr cymorth yn y 3ydd sector

> **"Rydym yn annog Aelodau Cynulliad yn gryf i gefnogi'r cynnig hwn, a fydd yn diogelu'r rhai sy'n goroesi, a dyfodol llochesau, ac yn cyfrannu at ymrwymiad y Llywodraeth i ariannu gwasanaethau arbenigol ym maes trais domestig a thrais rhywiol, a hynny mewn modd cynaliadwy."**
>
> Darparwr ym maes Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig

**Gallai'r dull hwn wneud defnydd o strwythurau comisiynu a llywodraethu sy'n bodoli eisoes, ac adeiladu arnynt:** Mantais arall yw y gallai'r grant arfaethedig – Grant Cymorth ym meysydd Digartrefedd a Thai –weithredu gan ddefnyddio strwythurau comisiynu a llywodraethu sy'n bodoli ar hyn o bryd. Eisoes, mae gan yr awdurdodau lleol eu timau comisiynu a monitro Cefnogi Pobl, y gellid eu cryfhau i gynnwys y swyddogaethau sy'n berthnasol i'r Grant Atal Digartrefedd a chostau tai mewn llety tymor-byr â chymorth. Gellid hefyd gryfhau strwythurau llywodraethu rhanbarthol a chenedlaethol Cefnogi Pobl (Pwyllgorau Rhanbarthol Cydweithredol a Bwrdd Ymgynghorol Cenedlaethol Cefnogi Pobl) a'u hymestyn i dderbyn cyfrifoldebau newydd dros y grantiau eraill.

**Byddai'n rhoi mwy o sicrwydd i fenthycwyr a landlordiaid:** Mae clustnodi cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth ym maes tai yn rhoi sicrwydd i fenthycwyr a landlordiaid y bydd yr arian yn parhau i fod ar gael ar gyfer cynlluniau llety â chymorth. Bydd hyn yn cynyddu hyder a'r tebygolrwydd y bydd buddsoddi yn yr adeiladau sy'n angenrheidiol ar gyfer y cynlluniau hyn yn parhau.

# Beth nesaf?

**Yn yr hydref, bydd y Gweinidogion yn gwneud penderfyniad ynghylch p'un ai i uno'r deg grant a chreu un grant newydd YGACh ai peidio. Rydym ni o'r farn y byddai hyn yn berygl mawr i ddyfodol gwasanaethau cymorth ym meysydd digartrefedd a thai yng Nghymru.**

Ni ddylai mynd i'r afael â digartrefedd fod yn fater i wahanol bleidiau, a dyna pam rydym yn gofyn i Weinidogion ac Aelodau Cynulliad ar draws yr holl bleidiau am gefnogaeth i'n cynnig ni am Grant Cymorth ym meysydd Digartrefedd a Thai.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech drafod y mater ymhellach.